

YMESTYN YN DAER TUAG AT WIR FYWYD!

Nodyn i'r siaradwr:

Cyferbyniwch olygwedd y byd ar “y bywyd sydd fywyd yn wir” â'r hyn mae Jehofah yn ei addo yn ei Air ysgrifenedig. Helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi fod byw ein bywydau mewn harmoni â bwriad Duw yn awr yn ystyrllon a digonol

GOLYGWEDD Y BYD AR Y GWIR FYWYD (6 mun.)

Mae rhai yn credu eu bod nhw'n wirioneddol fyw wrth ganlyn pleser

Efallai eu bod nhw mor astud yn ceisio pleser fel eu bod nhw mewn gwirionedd yn dweud: “Gadewch inni fwyta ac yfed, canys yfory byddwn farw” (1Cor 15:32)

Yn aml anwybyddant eu hiechyd, eu teulu, ac yn enwedig eu lles ysbrydol

Gellir dweud felly fod llawer ohonynt yn gweddu i'r disgrifiad o'r rheiny yn y dyddiau diwethaf sydd “yn caru pleser yn fwy na charu Duw” (2Tim 3:1-4)

Ni chanfu Solomon wir fywyd mewn pleser, eiddo, ond sylweddoli mai gwagedd yw pethau o'r fath (Preg 2:17; *it-2* 250)

Gŵyr eraill, hefyd, na rydd eiddo materol fywyd sydd yn fywyd yn wir

Dyweddod y biliwnydd a'r gwleidydd Americanaidd H. Ross Perot wrth fyfyrwyr Ysgol Fusnes Harvard: “Os gwnewch lawer o arian, os ewch chi allan a phrynu llawer o bethau materol—'pharan' nhw ddim . . . 'Dydi *pethau* ddim yn golygu hapusrwydd” (*Fortune*, Medi 11, 1989, tud 50)

Datganodd y gwyddonydd Albert Einstein: “Eiddo, llwyddiant ymddangosiadol, cyhoeddusrwydd, moethusrwydd—dirmygedig fu'r rhain i mi erioed. Credaf mai dull bywyd syml a diymhongar sydd orau i bawb” (*The New Dictionary of Thoughts*, tud. 622)

Gan nad yw'n gysylltiedig â cheisio pleser ac eiddo, beth yw'r gwir fywyd?

YR HYN YW'R GWIR FYWYD (5 mun.)

Soniodd yr apostol Paul am y gwir fywyd yn 1 Timotheus pennod 6

Cynghorodd Paul Timotheus i roi ei fryd ar rinweddau duwiol, a chymryd meddiant o'r bywyd tragwyddol (Darllen 1 Timotheus 6:11, 12)

Dylem ymddiried yn Nuw, a chael trysor fydd yn sylfaen sicr ar gyfer y dyfodol i feddiannu'r gwir fywyd (Darllen 1 Timotheus 6:17-19)

Mae dadansoddi geiriau Paul yn ein helpu i benderfynu beth yw'r “bywyd sydd yn fywyd yn wir”

Dywed 1 Timotheus 6:12 : ‘Cymer feddiant o'r *bywyd tragwyddol*'

Dywed adnod 19 am 'feddiannu'r *bywyd sydd yn fywyd yn wir*'

Felly, y gwir fywyd yw bywyd tragwyddol gyda chymeradwyaeth Duw

I ganlynwyr eneiog Iesu bywyd nefol tragwyddol ydyw

I eraill, bywyd tragwyddol ar Baradwys ddaearol ydyw (Lc 23:43)

SUT I FEDDIANNU'R GWIR FYWYD A CHADW GAFAEL ARNO (17 mun.)

Rhaid derbyn y bridwerth, ymroddi'n llwyr i Dduw ar ôl gweithredu'r camau sydd â bedydd yn ganlyniad iddynt (*it-2* 249; *w93* 4/1 5-6)

Mae angen profi'n ffydd trwy weithredoedd da (Iago 2:26; *rs* 359)

Mae'n hanfodol cael rhan yng ngweithred dda pregethu'r Deyrnas (1Tim 6:12b)

Rhaid inni weithio i sicrhau'n gafael ar y gwir fywyd

Rhoi ein bryd ar bethau ysbrydol gan amddiffyn y meddwl a'r galon (Col 3:2; Diar 4:23; *it-2* 249)

Angen rhoi chwantau cnawdol i farwolaeth a meithrin ffrwythau ysbryd Duw (Col 3:5; Gal 5:22, 23)

Rhaid osgoi caru'r byd (*w86* 7/15 13; darllen 1 Ioan 2:15-17)

Wrth sylwebu ar 1 Ioan 2:15-17 dywedodd Cristion honedig o'r drydedd ganrif: “Gan fod y byd yn casáu'r Cristion, pam dy fod ti, Gristion, yn caru'r hyn sy'n dy gasáu? a pham nad wyt yn hytrach yn canlyn Crist, a'th brynodd ac sy'n dy garu?” (*Treatise* VII, par. 24)

Pwysig 'dal ati i weddio' (Rhuf 12:12)

Un agwedd hanfodol ydi gofyn i Dduw: ‘Paid â'n dwyn i brawf, ond gwared ni rhag yr un drwg,’ Satan (Mth 6:13; *w90* 1/15 5-6)

Mae Duw yn caniatáu profi ond nid yw'n ein llethu â drygioni na chaniatau inni gael ein profi y tu hwnt i'n gallu (Iago 1:13; 1Cor 10:13)

Mae Jehofah yn 'peidio â'n dwyn i brawf' drwy ein rhybuddio ni rhag drygioni a'n cynghori ynglŷn â'r hyn a ddiwydd o fod yn gyfrannog ohono

Er enghraifft, yn 1 Timotheus 6:9, 10 fe rybuddia Gair Duw ni y gall caru arian arwain at bethau niweidiol ac y gall hyn olygu crwydro oddi wrth y ffydd

Wedi gweddio, osgowch sefyllfaoedd lle mae temtasiynau'n codi

Mae ysbryd hunan-aberthol a llwyr ymddiried yn Nuw hefyd yn helpu i feddiannu'r bywyd sy'n wir
Oherwydd i Ruth hunan-aberthol ddewis gwir addoliad, 'talodd' Duw 'yn llawn' iddi drwy i Iesu ddod o'i
llinach hi (Ruth 2:12; Mth 1:1, 5)

HELPWCH ERAILL I YMESTYN AM Y GWIR FYWYD (6 mun.)

Ag ysbryd hunan-aberthol, medrwn helpu eraill "i feddiannu'r bywyd sydd yn fywyd yn wir" (1Tim 6:19)

Drwy gyfrwng astudio'r Beibl yn rheolaidd fel teulu, mynychu'r cyfarfodydd, a chael rhan yn y weinidogaeth,
'rydym yn helpu'n tylwythau i werthfawrogi pethau ysbrydol a gafael yn y gwir fywyd

Mae'n gwaith pregethu yn helpu eraill i afael yn y gwir fywyd ac yn dod â llawenydd mawr inni (Defnyddiwrch
brofiadau'r *Blwyddlyfr* cyfredol)

Ymhlith y rhai sy'n helpu eraill i feddiannu'r gwir fywyd mae cenhadon a hyfforddwyd yn Ysgol Feibl Gilead
y Watchtower

Dywed Margarita Königer: "Dydw' i erioed wedi difaru'r penderfyniad i ddefnyddio fy mywyd yng
ngwasanaeth Jehofah. . . . Gallwn fod wedi dilyn gyrfa a dalai'n faterol, ond ystyriaf hynny'n ddim o'i
gymharu â'r fraint o helpu pobl. . . i ddysgu'r gwirionedd am fwriadau mawreddog Duw" (*w78 11/1 29*;
dyfynnwch hefyd F. E. Skinner, *w90 1/1 28*, par. 1)

Mae beth bynnag a wnawn i helpu eraill i afael yn y gwir fywyd yn wir yn rhoi boddhad

EDRYCHWCH YMLAEN AT Y GWIR FYWYD (8 mun.)

Mae'n fuddiol myfyrio ar fendithion y gwir fywyd

Â llawenydd mae'r eneniog yn rhagddisgwyl anfarwoldeb yn y nef

Bydd ganddynt ddyletswyddau wrth i'r ddynoliaeth gael ei hadfer i berffeithrwydd, a breintiau wedi'r
Teyrnasiad Mil Blynnydoedd (Dat 22:5; *re 313*)

Mae'r mwyafrif o bobl Jehofah yn hapus edrych ymlaen at fywyd tragwyddol ar ddaear baradwys

Dychmygwch eich hun wedi goroesi'r "gorthrymder mawr" yn cyfrannu at droi'r ddaear yn baradwys (Dat
7:9, 14, 17)

Dychmygwch fyw ym Mharadwys, lle cewch chi fwynhau gwaith ystyrion, awyr a bwyd heb eu llygru, a
lle na bydd bodau dynol â nodweddion bwystflaidd ganddynt nag anifeiliaid yn eich ysglyfio (Eseia 11:
6-9; 65:21-23)

'Welwch chi ddim carcharau, dim pobl di-gartref, a disodlir gofid claddu gan lawenydd atgyfodi (Dat 21:4;
In 5:28, 29)

Erbyn diwedd y Teyrnasiad Mil Blynnydoedd, mae'r holl ddynoliaeth yn berffaith ac yn byw mewn paradwys
byd-eang (*it-2 249*)

Cyhoedda Duw mai'r rhai sy'n teilyngu bywyd tragwyddol yw'r rhai sy'n ffyddlon yn ystod y prawf terfynol
(Dat 20:5-10; *re 290*; *it-2 251*)

Bydd gwir addoliad yn ffynnu, gan gyson ddarparu cynhaliaeth ysbrydol er ein lles meddyliol a chorfforol
(*it-2 247-8*)

CADARN FEDDIANNWCH Y GWIR FYWYD (3 mun.)

Yn y dyddiau diwethaf hyn, ofer a marwol yw cwrs bywyd sy'n defnyddio'n holl amser dim ond i geisio
cyrhaeddiad academaidd, cyfoeth, enwogrwydd, neu lwyddiant bydol

Byddai hyn yn golygu colli cymeradwyaeth Duw a'r gwir fywyd

Fel y bu i'r Dilyw ddileu dynoliaeth ond am Noa a'i deulu, felly y bydd dinistr i'r rhai 'na wyddant ddim'
heddiw (Mth 24:36-42)

Boed inni gydnabod brys y dyddiau hyn (2Cor 6:2)

Cadarn feddiannwch y gwir fywyd, glynwch wrtho, helpwch eraill i afael mewn bywyd o'r fath

Cadwch y gobaith hwnnw yn eich calon, drwy astudio, gweddio, myfyrio

Meddyliwch am y bendithion sydd o'ch blaen, a pheidiwch â chaniatáu i ddim eich rhwystro rhag meddiannu'r
gwir fywyd

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim
angen darllen pob testun a grybwyllir)